Y Pwyllgor Deisebau

—

Petitions Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

18 Gorffennaf 2025

Annwyl gyfaill,

**Deisebau'r Senedd: Eich barn ar y broses ddeisebu gyhoeddus**

Wrth i ni symud ymlaen drwy flwyddyn olaf y Chweched Senedd, mae'r Pwyllgor wedi bod yn ystyried ei ffyrdd o weithio, ac yn adolygu'r broses ddeisebu gyhoeddus er mwyn gwneud argymhellion i'r pwyllgor a fydd yn ei olynu yn y Seithfed Senedd.

Cytunodd yr Aelodau, fel rhan o'r broses adolygu honno, y byddai'n ddefnyddiol cynnal ymgynghoriad wedi'i dargedu gyda rhai sefydliadau allweddol a chyrff cynrychioliadol yng Nghymru yr ydym yn galw arnynt i ymateb i ddeisebau'r Senedd.

Fel cyfrannwr gwerthfawr at waith y Pwyllgor, byddem yn gwerthfawrogi pe gallech rannu unrhyw farn sydd gennych am y broses hon o ymgysylltu â deisebau'r Senedd. Yn benodol:

- Sut rydym yn ceisio eich ymatebion i'r materion a'r pryderon y mae deisebwyr yn eu codi: A yw'r amserlenni'n gywir? Beth sydd wedi gweithio'n dda yn y Chweched Senedd? Beth sydd heb weithio'n dda neu beth y gellid ei wella?
- Beth yw'r ffordd orau i Bwyllgor Deisebau yn y dyfodol ymgysylltu â materion polisi rheolaidd sy'n sail i'r deisebau a ddaw i law?
- A oes meysydd penodol o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau ym mywyd cyhoeddus Cymru y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor ganolbwyntio arnynt?
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau cyffredinol eraill am broses deisebau'r Senedd neu safonau ar gyfer deisebau? Er enghraifft, sut rydym yn casglu tystiolaeth, neu'r blaenoriaethau y mae'r Aelodau'n eu dewis ar gyfer ymchwiliadau manwl, gwaith ymgysylltu neu ymweliadau.
- A oes unrhyw beth ar goll o'r ffordd draddodiadol y mae'r Pwyllgor wedi ymgysylltu, neu'r grwpiau neu'r unigolion penodol y mae wedi ymgysylltu â nhw?
- Sut y gallai fod angen newid y rheolau ynghylch deisebau'r Senedd i gefnogi unrhyw welliannau y byddech chi'n eu hargymell?

Rwy’n edrych ymlaen at eich ymateb. Rydym yn deall y gallai fod angen i chi gasglu barn gan y cyrff neu'r aelodau rydych chi'n eu cynrychioli. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech gyflwyno ymateb ar y cyd gan eich sefydliad **erbyn dydd Llun 22 Medi**.

Mae croeso i chi gysylltu â'r tîm clercio yn Deisebau@Senedd.Cymru os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau.

Yn gywir,



Carolyn Thomas AS

**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.